



YDC

Siarter **laith**

Ein taith gyda'r Siarter laith o'r cychwyn cyntaf.



Llysgenhadon y Gymraeg



Beth yw'r Siarter?




Mae'r Siarter Iaith yn gyfle i agor drysau i'r Gymraeg o fewn yr ysgol, gan gynnig cyfleoedd i'r disgyblion, y staff a'r gymuned ehangach i ymdrochi eu hunain yn niwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.



Nod y Siarter yw i hybu agweddau gwahanol o'r iaith; yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn gerddorol a mwy, gan ddangos fod cymaint o gyfleoedd o fewn yr iaith; y tu fewn ac y tu hwnt i furiau'r ysgol!





Ein gweledigaeth

Gweledigaeth I

Tim brwdfrydig o ddisgyblion i ymgynyll er mwyn:

- Trefnu gweithgareddau sydd am hybu'r defnydd o Gymraeg ac arddangos yr arwy Gymraeg sy'n bodoli yn ein cymunedau
- Dau aelod o bob blwyddyn

Oes gen ti ddi-ddordeb mewn:

- Cefnogi dy gymdeithas
- Cerddoriaeth Gymraeg
- Chwaraeon
- Siarad cyhoeddus
- Teithio
- Ein Iaith
- Datblygu portffolio a mwy....

Dyma dy gyfle di!

Gofynion y Tîm

Penderfynu a threfnu:

- TEITHIAU
- GIGS
- GWEITHGAREDDAU HWYLIOG
- CYFELWYNO SYNIADAU FFRES
- GWEITHGAREDDAU DYDDIAU RHYNGWladol
- CYSYLLTYR YSGOL I'R GYMUNED
- GWEITHGAREDDAU DYDDIAU RHYNGWladol
- SYNIADAU FFRES
- BARN GADARN
- DIDORDEB
- BRWDFRYDEDD
- YMRODDIAD
- PH I EHANGU DY ORWELION
- RIAD TUAG AT GYMRU A'R GYMRAEG

Sylfaen y Siarter Iaith a Thim y Siarter yw i hybu'r Gymraeg o fewn yr ysgol a'r Gymuned



Dechrau o'r Dechrau Siwrne'r Siarter

Dechreuodd Siwrne'r Siarter ym mis Medi, gyda Miss Price yn ymweld â'n gwasanaethau ni er mwyn esbonio:

- ✓ beth oedd y Siarter
- ✓ sut fedrwn ni fod yn rhan ohoni
- ✓ swyddogaethau posib o fewn y Siarter



Penodi Tîm a'r Cyfarfod Cyntaf

Gyda brwdfrydedd disgyblion daethpwyd i benderfyniad ar dîm pwrpasol o flwyddyn 7 i flwyddyn 11.

Casglwyd syniadau ar **sut i hybu'r Gymraeg** o fewn yr ysgol a'r gymuned gan gynrychiolwyr o gefndiroedd gwahanol er mwyn cael trawsdoriad eang o brofiadau yn yr ysgol.

Roeddem yn barod i

- Sicrhau fod y Gymraeg yn derbyn lle canolog yn yr ysgol a hybu'r defnydd a'r naws Gymraeg ymysg ein cyd-ddisgyblion

2 +


**gynrychiolydd o
bob blwyddyn**

**brwdfrydedd dros
gynnal, gwrachod
a gwreiddio'r iaith**

Holiaduron Hydref 2025

Er mwyn tracio ein cynnydd gyda'r Gymraeg, rhaid oedd cynnal holiaduron i ddisgyblion bl.7-11.

Dewiswyd trawsdoriad o ddosbarthiadau er mwyn cael data teg.





O ganlyniad i ddata'r holiaduron daethpwyd i'r casgliad fod angen gweithredu yn y maesydd canlynol:

Byddwn yn dangos sut aethom ati i geisio gwella'r rhain yn y sleidiau nesaf.

1. Hybu'r defnydd o gerddoriaeth Gymraeg

Holiadur Hydref 2025

2. Hybu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth



3. Hybu'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol (tu hwnt i'r ysgol)



Penodi Enw a Logo Dreigiau'r Dyffryn

Penderfynwyd bod angen enw i'n tîm newydd sbon, a logo lliwgar!

Penodwyd dylunydd gan y tîm, a llwyddodd i greu'r logo arbennig hwn sydd yn crisialu ein brwdfrydedd fel tîm.


DREIGIAU DYFFRYN




Botwm Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ogystal â'r digwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg, daethpwyd i'r casgliad bod cymell y defnydd hefyd yn ffordd hanfodol o gynyddu'r nifer o siaradwyr yn yr ysgol.

Crewyd 2 fotwm newydd ar ein system 'ClassCharts' sef 'Pencampwr y Gymraeg' i ddisgybl sydd yn cynrychioli'r Gymraeg yn allgyrsiol e.e digwyddiad yr Urdd, a 'Defnydd o'r Gymraeg' i'w wobrwyo i ddisgyblion sydd yn rhagori yn eu hymdrech neu eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.



**Pencampwr y
Gymraeg**





**Defnydd o'r
Gymraeg**



Cyn-ddisgybl yr wythnos

Daeth i'r amlwg fod angen gwthio'r ffaith fod y Gymraeg yn rhan hanfodol o fyd gwaith a busnes, felly, pob wythnos yn ein dosbarthiadau cofrestru rydym yn derbyn cyflwyniad ar gyn-ddisgybl sydd wedi llwyddo yn ei m/faes, drwy'r iaith Gymraeg. Enghreifftiau diweddar yw Nel a Branwen Metcalfe, Cadi Gwyn Edwards a Wyn Chips.



...aniser yn YDC, aeth
...en i astudion **amaeth** yng
Ngholeg Glyn Llifon.

Prynodd sawl rownd lefrith gan ei daid a oedd yn mynd o amgylch dalgylch Dyffryn Conwy i gyd!



Prynodd siop yn Ninbych yn gyntaf o'r enw: 'O'r Pridd i'r Plat' a oedd yn siop cigydd ar y pryd yn Llanrwst. 4Rhedodd y siop pysgod am ambell flwyddyn cyn ei droi yn siop Pysgod a Sglo ffrwr. Yn 2019 prynodd fwyty Tir a Môr.

Oeddech chi'n gwybod fod Wyn yn gwerthu coed Nadolig yng nghefn y siop ers blynyddoedd?





Digwyddiad Diwedd Yr Anghysur

Cafwyd amser gwych ar ddiwrnod Dydd Miwsig Cymru ble y daeth Yr Anghysur, band lleol a gwefreiddiol i gynnal gigiau i holl flynyddoedd yr ysgol.

Cawsom ni fel **Dreigiau'r Dyffryn** y cyfle i stiwardio yn ystod amser cinio a'r prynhawn!





Llwyddianau hyd yn hyn

...

Dyma flas ar rai pethau rydym ni wedi eu cynnal o ganlyniad i brosiect y Siarter.

Rydym yn annog adranau i drefnu gweithgareddau allgysrsiol eraill drwy'r Gymraeg hefyd er mwyn deall fod y Gymraeg yn perthyn i bob agwedd o'r meysydd dysgu a phrofiad!



Diwrnod Sgiliau: Siaadwyr Gwādd

Cafwyd unigolion megis Collin Diamond i ymuno â ni ar y diwrnod sgiliau er mwyn deall fod y Gymraeg yn plethu i bob math o yrfaedd posib.



Yr Anghysur

Band lleol a llewyrchus 'Yr Anghysur' a ddaeth i ymuno â ni ar ddydd Miwsig Cymru!



SIARTER IAITH

DREIGIAU DYFFRYN



Diwrnod Shwmae Sumai

Cyflwyniad i flwyddyn 9 ar bwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle.

Camau Nesaf

- Parhau i hybu'r Gymraeg drwy feddwl am ffyrdd gwahanol ac unigryw o apelio at ein cyd-ddisgyblion
- Cynnal ail holiadur i'r ysgol gyfan a gweld os ydy'r canlyniadau yn dangos unrhyw welliant.
- Gwerthuso'r canlyniadau
- Trefnu digwyddiadau Tymor 3
- **Ennill y wobwr Efydd erbyn diwedd y flwyddyn academaidd!**

